

PARHEWCH I GRYFHAU EICH PERTHYNAS Â DUW

Nodyn i'r siaradwr:

Anoga'r gynulleidfa i gryfhau a dyfnhau eu perthynas â Duw. Cymell nhw i hyfforddi eu cydwybod er mwyn tyfu i aeddfedrwydd ysbrydol

MAE'N BOSIB CAEL PERTHYNAS DDA GYDA DUW (4 mun.)

O ddechrau creadigaeth, mae Jehofa wedi gosod y sail i ddynolryw cael perthynas dda ag ef

Gosododd ddynolryw mewn amgylchiadau perffaith, gyda'r cyfle i fyw am byth (Ge 2:9, 15-18)

Cafodd dynion eu creu gyda'r gallu i adlewyrchu rhinweddau Duwiol, fel cariad a chyfiawnder [**Darllen Genesis 1:27**]

Er bod dynion yn pechu ac yn amherffaith, mae Duw yn dal yn eu gwahodd nhw i fwynhau perthynas dda ag ef (Iag 4:8)

HYFFORDDI EICH CYDWYBOD (10 mun.)

Er mwyn cael perthynas dda gyda Duw, mae'n rhaid inni ymddwyn mewn ffordd sy'n dilyn ei safonau cyfiawn Rhoddodd Duw y gydwybod inni er mwyn ein helpu ni i wneud y peth iawn [**Darllen Rhufeiniaid 2:14, 15** (lv 15-17 ¶3-7)]

Mae'n rhaid inni hyfforddi ein cydwybod i arwain ni yn y ffordd iawn (*it-1-E 501 ¶2*)

Bydd cydwybod sydd wedi cael ei hyfforddi yn cadw ni'n effro i unrhyw weithred sydd ddim yn dilyn safonau Duw, ac yn ein rhybuddio ni cyn i ni wneud rhywbeth i niweidio'n perthynas â Duw

Trwy egwyddorion a deddfau Beiblaidd, mae Jehofa yn ein harwain mewn ffordd sy'n pwysleisio'r angen inni ddefnyddio ein cydwybod

Mae'r Beibl yn tynnu sylw at rai pethau sy'n foesol anghywir, gan roi deddfau yn eu herbyn (1Co 6:9, 10)

Trwy fod yn ufudd i ddeddfau Beiblaidd, yn enwedig pan nad ydy pobl yn ein gweld, rydyn ni'n dangos ein hagwedd tuag at Dduw—Rhoddwr y deddfau

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o faterion cael eu penderfynu ar sail egwyddorion y Beibl; mae hyn yn golygu bod angen defnyddio'r gydwybod yn fwy

Mae egwyddorion yn wirioneddau sylfaenol sy'n gweithio fel canllawiau moesol (*w02-E 4/15 19 ¶4-6*)

Rydyn ni'n dysgu mwy am bersonoliaeth a meddylfryd Jehofa drwy edrych yn fanwl ar egwyddorion Beiblaidd

Mae'n cymryd mwy o ymdrech i ddysgu am egwyddorion a'u rhoi ar waith na dilyn rhestr o reolau

Mae'r ffordd rydyn ni'n ymateb i egwyddorion yn dangos i Jehofa beth sydd yn ein calon (*w02-E 4/15 19-21 ¶7-12*)

PARHEWCH I AEDDFEDU'N YSBRYDOL (10 mun.)

Ar ôl eich bedydd, gwnewch hi'n nod i symud ymlaen at aeddfedrwydd ysbrydol [**Darllen Hebraeid 5:14-6:1** (*it-2-E 355*)]

Ceisiwch ddeall gwirioneddau Beiblaidd dwfn (*w09-E 5/15 9-10 ¶5-6*)

Gadewch i Air Duw eich arwain chi ym mhob peth (*w09-E 5/15 10-11 ¶7-11*)

Mae gwrthod gwneud hyn yn gallu arwain at wendid ysbrydol parhaol (Heb 5:11-13)

Mae'r rhai sy'n aeddfed yn ysbrydol yn derbyn pob gwirionedd Cristnogol ac yn eu rhoi ar waith [**Darllen Effesiaid 4:13, 15**]

Maen nhw'n rhoi heibio unrhyw ran o'u hen bersonoliaeth sydd yn dal yn llechu ynddyn nhw (Eff 4:22-24)

Maen nhw a'u cyd-addolwyr wedi eu huno gan yr un meddylfryd (*w01-E 8/1 13-14 ¶6-11*)

Ar y llaw arall, mae baban ysbrydol yn ansefydlog ac yn llai tebygol o wneud penderfyniadau call (Eff 4:14)

Wrth inni dyfu o blant i oedolion mewn ffordd ysbrydol, rydyn ni'n agosáu'n fwy at Jehofa Dduw

Cawn ein gwarchod rhag maglau byd Satan (1Co 14:20; *w09-E 5/15 12 ¶14-16*)

Wrth i'n meddylfryd ddod yn agosach at feddylfryd Jehofa, rydyn ni'n adlewyrchu ei bersonoliaeth yn fwy byth

PARHEWCH I GRYFHAU EICH PERTHYNAS Â DUW (6 mun.)

Dydy ein tyfiant ysbrydol ddim yn dod i ben pan gyrhaeddwn aeddfedrwydd ysbrydol

Roedd Timotheus yn Gristion aeddfed, ond cafodd ei annog i wneud cynnydd (1Ti 4:15)

Roedd ef yn gallu adlewyrchu cymeriad Duw yn fwy drwy ei agwedd, ei eiriau, a'i ymddygiad (1Ti 4:12, 13)

Parhewch i ddysgu am Dduw a datblygu gwerthfawrogiad am ei ffyrdd (Sal 25:4, 5)

Parhewch i wneud cynnydd wrth gynhyrchu ffrwythau'r ysbryd (Ga 5:22, 23)

Fe gewch chi wir hapusrwydd wrth ichi gryfhau eich perthynas â Duw

Mae gan y rhai sydd â perthynas dda gyda Duw y cyfle i gryfhau y berthynas honno am byth

Does dim diwedd ar yr hyn y gallwn ni ddysgu am Jehofa (Rhu 11:33)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]